| Dyddiad y cyfarfod : | 17 Chwefror 2022 |
|---|---|
| **Pwnc** | Cydnabyddiaeth Ariannol i Aelodau etholedig - uwch gyflogau ar gyfer 2022/23 |
| **Argymhelliad** | Gofynnir i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth am sylwadau ar yr argymhelliad ar gyfer rolau i dderbyn uwch gyflogau yn 2022/23 |
| **Swyddog Cyswllt:** | Vera Jones, Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith |

**Diweddariad.**

1. Cyflwynwyd adroddiad drafft y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol i gyfarfod y pwyllgor ym mis Tachwedd 2021. Cyflwynwyd sylwadau i'r ymgynghoriad ar sail eich sylwadau.

2. Roedd yn fwriad gennyf i gadarnhau'r sefyllfa ar gyfer 2022/23 yn y cyfarfod yma, ond ni fydd yr adroddiad terfynol yn cael ei gyhoeddi gan y Panel hyd ddiwedd Chwefror (wythnos yn cychwyn 22/02/22).

3. Fy mwriad nawr fydd cadarnhau'r newidiadau ar gyfer 2022/23 yn y newyddlen sy'n cael ei greu gan Gadeirydd y pwyllgor yn dilyn pob cyfarfod/ Bydd hyn yn ein gallu i godi ymwybyddiaeth yr holl Aelodau o'r penderfyniadau. Nid ydym yn rhagweld y bydd newidiadau o'r adroddiad drafft a gyflwynwyd ym mis Tachwedd 2021.

**Uwch gyflogau**.

4. Dyma'r cyfarfod olaf o'r pwyllgor cyn etholiad Llywodraeth Leol Mai 2022. Yn dilyn yr etholiad bydd angen cadarnhau'r rolau sydd i dderbyn uwch gyflogau ar gyfer 2022/23. Nid oes unrhyw newid wedi bod i'r rhestr rolau sydd yn derbyn uwch gyflogau ers rhai blynyddol.

5. I'ch atgoffa, telir yr uwch gyflogau fel a ganlyn yn gyfredol:

- Arweinydd
- Dirprwy Arweinydd
- hyd at 8 aelod arall o'r Cabinet
- Arweinydd yr Wrthblaid fwyaf *
- Cadeiryddion Pwyllgorau
  - Pwyllgor Craffu ( x3 )
  - Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu
  - Pwyllgor Cynllunio
  - Pwyllgor Trwyddedu (Canolog a Chyffredinol yn cael ei gyfrif fel un Pwyllgor)
  - Pwyllgor Pensiynau

* mae’n ofyn gan y Panel Annibynnol ar gydnabyddiaeth ariannol i neilltuo uwch gyflog i’r rôl

6. Roedd yr ymgynghoriad gan y Panel yn nodi na fyddai unrhyw newid i uchafswm yr uwch gyflogau y gellir eu pennu yng Ngwynedd.  Fodd bynnag, mae peth newid ar gyfer 2022/23 a hynny yn sgil aelodaeth a chadeiryddiaeth y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.  Yn unol â gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, bydd yn rhaid penodi Cadeirydd i’r pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio o blith yr Aelodau lleyg o Mai 2022 ymlaen.

7. O ganlyniad i’r gofyn i benodi Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio o blith yr Aelodau lleyg ni fydd y rôl honno felly yn cael ei chynnwys yn y rhestr o uwch gyflogau sy’n cael eu cydnabod gan y Cyngor.  Noder y bydd y Cadeirydd yn derbyn cydnabyddiaeth am y rôl yn unol â gofynion y Panel Annibynnol.

8. Yn hanesyddol, y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth sydd wedi argymell unrhyw newidiadau i’r Cyngor llawn eu mabwysiadu.  Yn y sefyllfa sydd ohoni, mae’n debyg mai’r argymhelliad mwyaf synhwyrol i’w gyflwyno i’r Cyngor llawn ym mis Mai 2022 yw addasu’r rhestr uwch gyflogau a pheidio cynnwys Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn y rhestr.  Mewn geiriau eraill cynnwys 17 rôl ar gyfer 2022/23 (fel a restrir isod).

9. Mae’n debyg y byddai’n synhwyrol i’r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth adolygu’r rhestr yma’n llawn yn ystod 2022/23 i sicrhau fod y rolau cywir yn parhau i dderbyn y gydnabyddiaeth ariannol uwch ac adrodd unrhyw argymhelliad i’r Cyngor llawn ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24.

**Argymhelliad**

10. Mae aelodau’r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth yn argymell i’r Cyngor llawn fod y rolau a ganlyn yn derbyn uwch gyflog am 2022/23, gan ofyn i’r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth adolygu’r rhestr ar gyfer 2023/24.

- Arweinydd
- Dirprwy Arweinydd
- hyd at 8 aelod arall o’r Cabinet
- Arweinydd yr Wrthblaid fwyaf *
- Cadeiryddion Pwyllgorau
    - Pwyllgor Craffu ( x3 )
    - Pwyllgor Cynllunio
    - Pwyllgor Trwyddedu (Canolog a Chyffredinol yn cael ei gyfrif fel un Pwyllgor)
    - Pwyllgor Pensiynau